

Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 9:30 a.m. ddydd Llun 7 Hydref 2013 yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

Gweinidogion yn Bresennol

Y Prif Weinidog
Y Gweinidog yr Economy, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Y Gweinidog Cyllid (Eitem 3)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (Eitem 5)
Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi (Eitem 5)

Rhanddeiliaid yn Bresennol

Alex Bevan, TUC Cymru
John Phillips, TUC Cymru
Martin Mansfield, TUC Cymru
Andy Richards, TUC Cymru
Paul Byard, Cadeirydd Busnes Cymru
Richard Houdmont, Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM)
Nigel Keane, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU)
Emma Watkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Leighton Jenkins, CBI
David Russ, Siambr Cymru
Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach
David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Alex Jackman, Fforwm Busnes Preifat
Richard Jenkins, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB)
David Leron, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
Graham Morgan, Siambr Cymru
Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Robert Lloyd-Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)

Arsylwyr

Ifan Glyn, FMB
Heather Eason, WSPU
Mark Judd, WSPU

Cynghorwyr Arbennig a Swyddogion Llywodraeth Cymru yn Bresennol

Ysgrifennydd Parhaol	Andrew Jeffries (Eitem 3)
James Price	Mick McGuire
Tracey Burke	Marcella Maxwell (Eitem 4)
Jonathan Price	Eleanor Marks (Eitem 5)
Owen Evans (Eitemau 4 a 5)	

Ymddiheuriadau:

Ben Cottam, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA); David Evans, TUC Cymru; Peter Hughes, Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CML); Phil Orford, Fforwm Busnes Preifat; Nick Payne, Cymdeithas Cludo Nwyddau; Richard Price,

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi; Huw Thomas, NFU; Ian Gallagher, Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau; Mary James, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr; Huw Roberts, Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD).

1. Cyflwyniad a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

2. Nodiadau a Chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2013

2.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon ar yr agenda a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb y nodiadau neu sylwadau ar y camau gweithredu. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o ran cywirdeb, na sylwadau ar y camau gweithredu ac felly cytunwyd ar nodiadau a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol.

3. Cyllideb Ddrafft

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid bapur ar Amcanestyniadau'r Gyllideb i Gymru. Esboniodd y Gweinidog fod y papur yn nodi cyd-destun heriol y gyllideb derfynol ac yn dilyn cyfnod craffu yn awr bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr.

3.2 Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol anoddaf ers datganoli a soniodd fod nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gydag aelodau o'r Cyngor yn ystod yr haf i drafod realiti'r penderfyniadau sy'n gorfod cael eu gwneud. Esboniodd y Gweinidog pa mor bwysig yw sicrhau bod blaenoriaethau partneriaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb.

3.3 Nododd Andy Richards o TUC Cymru ei fod yn gwerthfawrogi ymdrechion parhaus y Gweinidog i weithio mewn ysbryd o bartneriaeth. Dylid ystyried bod y gwaith partneriaeth hyd yma wedi bod yn llwyddiant. Dywedodd y byddai TUC Cymru yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar bob lefel i leddfau effeithiau mesurau caledi Llywodraeth y DU. Ni ddylem fynd ar drywydd dulliau gweithredu tymor byr o reoli'r broses leihau gan y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar economïau lleol.

3.4 Yna cyfeiriodd Iestyn Davies o'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) at y ffigurau buddsoddi cyfalaf a adlewyrchir ym mharagraff 9 o'r papur a dywedodd y byddai'r FSB yn cefnogi rhaglen buddsoddi cyfalaf barhaus. Dywedodd fod angen sicrhau'r effaith fwyaf o ran caffael yn yr amgylchedd hwn ac y byddai'n croesawu'r nod o ailgynnull gweithgor ar gaffael yr oedd wedi bod yn gysylltiedig ag ef o'r blaen.

3.5 Cytunodd Emma Watkins o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) â'r pwyntiau a wnaed ar bartneriaethau. Nododd fod yn rhaid i'r trafodaethau hyn barhau er mwyn sicrhau gwerth mwyaf y gyllideb bresennol a denu buddsoddiadau eraill.

- 3.6 Nododd Richard Jenkins o Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB) fod y camau breision a wnaed o ran caffael yn hanfodol ond ei bod yn bwysig lleihau'r gwariant sy'n mynd allan o'r wlad ac y byddai'n cefnogi sylwadau Iestyn Davies ar barhau gyda'r ddadl ar gaffael.
- 3.7 Yna soniodd y Prif Weinidog am fater prosiectau cyfalaf, gan esbonio y gall y diffyg pwerau benthyca yng Nghymru olygu na all prosiectau fynd rhagddynt. Dywedodd fod hyn yn rhoi Cymru dan gryn anfantais gystadleuol ac os nad oes unrhyw newid fod hyn yn debygol o olygu na fydd prosiectau pwysig, fel ffordd liniaru'r M4, yn mynd yn eu blaen.
- 3.8 Nododd y Prif Weinidog - er gwaethaf barn leiafrifol yn San Steffan, na fyddai'r sector adeiladu yng Nghymru yn croesawu datganoli'r dreth stamp - roedd yr ymgynghoriad diweddar wedi dangos bod cefnogaeth lwyr yng Nghymru i ddatganoli'r dreth stamp. Dywedodd fod angen datganoli'r dreth stamp er mwyn cefnogi'r diwydiant adeiladu a phrynwyr tro cyntaf. Nododd y Prif Weinidog nad yw'n derbyn y ddadl y bydd hyn yn gwyrddroi'r farchnad mewn ffordd annerbyniol: mae gwahaniaethau yng nghyfraddau'r dreth gyngor eisoes yn bodoli rhwng ardaloedd awdurdodau lleol heb broblemau mawr, ac mae'r dreth stamp eisoes wedi'i datganoli yn yr Alban. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn croesawu cefnogaeth barhaus partneriaid wrth gyflwyno'r achos dros newid i Llywodraeth y DU.
- 3.9 Diolchodd y Gweinidog Cyllid i Andy Richards am ei sylwadau ar bartneriaeth a chytunodd fod partneriaeth yn allweddol. Cytunodd y Gweinidog ei bod yn bwysig manteisio i'r eithaf ar y pwerau sydd gennym ar hyn o bryd a chroesawodd yr awgrym i barhau â'r drafodaeth ar gaffael.
- 3.10 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Cyllid.

4. Trafodaeth ar Flaenoriaethau Economaidd

- 4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog eitem pedwar ar yr agenda a chyfeiriodd at y tri phapur ategol:
- Papur Llywodraeth Cymru Y Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi
 - Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol Gymreig
 - Strategaeth ddiwydiannol/datblygu economaidd llywodraeth gyfan i Gymru
- 4.2 Dywedodd y Prif Weinidog mai bwriad papur Llywodraeth Cymru oedd nodi ein fframwaith ar gyfer buddsoddi ac mae'n amlinellu tri maes â blaenoriaeth sef Pobl, Busnes a Lle. Cynigiodd y dylid cynnal gweithdy gydag Aelodau'r Cyngor ym mis Tachwedd er mwyn datblygu fersiwn drafft y Fframwaith, ac y gallai'r newyddion diweddaraf gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu: Rhoi'r newyddion diweddaraf yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror

- 4.4 Gwahoddodd y Prif Weinidog swyddog o TUC Cymru i siarad am ei bapur, wedyn y CBI, a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a gofynnodd i bob sylw ar y tri phapur gael eu rhoi ar y diwedd.
- 4.5 Cydnabu Martin Mansfield nad oedd y partneriaid cymdeithasol na Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i ymateb yn llawn i'r papur yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor oherwydd amseriad Cynhadledd Flynyddol y TUC lle y lansiwyd y papur. Disgrifiodd bapur y TUC fel un a oedd yn crynhoi barn y TUC o ran yr hyn sydd ei angen er mwyn delio â'r heriau presennol sy'n bodoli yn yr economi. Mae'r papur yn galw am gydgysylltu a blaenoriaethu meysydd allweddol. Nododd Martin Mansfield yr ymddengys mai dyna'r hyn sy'n dod i'r amlwg ym mhapur Llywodraeth Cymru a bod llawer yn y papur sy'n adlewyrchu polisi presennol y Llywodraeth. Fodd bynnag, byddai'r TUC yn cynnig ychwanegu rhai meysydd i bapur Llywodraeth Cymru, fel cronfeydd strwythurol a thai.
- 4.6 Aeth Martin Mansfield yn ei flaen i sôn bod angen datblygu'r dulliau cysylltu ffurfiol a ddefnyddir gan bartneriaid cymdeithasol rhwng cyfarfodydd a chyfeiriodd at yr Uwchgynadleddau Economaidd cynnar yn hynny o beth. Nododd fod y TUC yn gweld rôl fawr i'r partneriaid cymdeithasol o ran helpu i ddatblygu strategaeth a blaenoriaethu, a bod angen cael dull cydgysylltiedig ar gyfer hyn ar draws y Llywodraeth, dan arweiniad y Prif Weinidog. Croesawodd y papur fel sail dda ar gyfer trafodaeth, gan ddweud bod mwy i'w ychwanegu ac y bydd y gweithdy yn bwysig.
- 4.7 Diolchodd y Prif Weinidog i Martin Mansfield am ei sylwadau. Yna gwahoddodd Emma Watkins o'r CBI i siarad.
- 4.8 Cytunodd Emma Watkins fod adeiladu ar fomentwm yn allweddol, ac awgrymodd fod cyfle i ailystyried sut rydym yn gwneud pethau a bod y CBI yn croesawu papur Llywodraeth Cymru. Cytunodd fod angen crynhoi holl weithgareddau Llywodraeth Cymru er mwyn canolbwyntio ar rai blaenoriaethau allweddol penodol a mesuradwy. Nododd fod y cyfeiriad at ddangosyddion perfformiad allweddol yn gadarnhaol. Pwysleisiodd fod arweinyddiaeth o'r brig hefyd yn hollbwysig. Nododd fod busnes yn aml yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo polisiau eraill ond bod angen canolbwyntio ar sut rydym yn hyrwyddo'r economi. Holodd a fyddai gan Uned Gyflawni'r Prif Weinidog rôl i'w chwarae wrth fesur y ffordd y cyflawnir y fframwaith.
- 4.9 Ymatebodd y Prif Weinidog fod gan yr Uned Gyflawni rôl i'w chwarae wrth gydgysylltu polisi trawslywodraethol. Roedd hyn i'w weld yn yr ymateb i weithredu'r rheoliadau o ran cyflwyno systemau chwistrellu mewn adeiladau newydd. Nododd fod dau fater y byddai'n croesawu sylwadau arnynt: cynnwys y papurau ac unrhyw sylwadau ar y Cyngor ei hun. Gofynnodd am i'r tri phapur gael eu hystyried gyda'i gilydd yn yr ymatebion.
- 4.10 Dywedodd David Russ mai'r un maes nas cynhwysir ym mhapur Llywodraeth Cymru yw entrepreneuriaeth a nododd fod gwir angen buddsoddi mewn entrepreneuriaeth fel ymrwymiad hirdymor. Nododd fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn nas adlewyrchir ar hyn o bryd yn y ddogfen.

- 4.11 Croesawodd Paul Byard bapur Llywodraeth Cymru, yn enwedig y cyfleoedd a nodwyd ar gyfer y dyfodol a'r themâu traws-sector. Gofynnodd sut y byddai'r dull gweithredu hwn yn dod â strategaethau'r sectorau ynghyd.
- 4.12 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod y sectorau yn datblygu mewn ffyrdd gwahanol ond na allai ragweld unrhyw broblemau wrth gyfuno'r dulliau gweithredu gwahanol fel rhan o'r fframwaith cyffredinol. Cytunodd â'r pwynt a wnaed am entrepreneuriaeth. Mae polisi entrepreneuriaeth wedi datblygu ac mae angen adlewyrchu hyn yn y dyfodol. Cytunodd y Gweinidog ag Emma Watkins ynghylch yr angen i fesur a dywedodd fod yn rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar faterion allweddol datblygu economaidd a sgiliau. Rhaid i'r dull gweithredu fod yn strategol a bydd angen gwneud gwaith pellach arno. Esboniodd y Gweinidog fod y partneriaid cymdeithasol yn ganolog i hyn.
- 4.13 Dywedodd Emma Watkins ei bod yn credu y dylai'r partneriaid cymdeithasol fynegi eu cefnogaeth i Lywodraeth Cymru yn y penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud.
- 4.14 Dywedodd Paul Byard ei bod yn bwysig ystyried sut y gellir globaleiddio busnesau a'r defnydd o Gronfeydd Ewropeaidd. Yn arbennig, mae Horizon 2020 yn gyfle enfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.
- 4.15 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod Prif Swyddog Gwyddoniaeth Cymru wedi arwain y blaen yn weithredol o ran ystyried y materion sy'n gysylltiedig â Horizon 2020.
- 4.16 Dywedodd Iestyn Davies ei fod yn credu bod llawer i'w ganmol ym mhapur Llywodraeth Cymru ac ailffocysu ar ddatblygu economaidd. Cytunodd â'r tair thema. Dywedodd ei bod yn bwysig edrych ar y problemau economaidd ehangach pan ddehonglwn y data sydd ar gael; y byddai Cymru wedi wynebu heriau economaidd mawr hyd yn oed pe na bai'r dirywiad yn 2008 wedi digwydd. Crybwyllodd hefyd na ddylai Cymru syrthio i'r un fagl â Lloegr, gan ganolbwyntio gweithgarwch yn y de-ddwyrain er anfantais i rannau eraill o'r wlad.
- 4.17 Esboniodd Iestyn Davies nad oedd FSB wedi siarad eto ag aelodau, ond roedd wedi'i galonogi gan y ffocws ar greu amgylchedd y gall busnes ffynnu ynddo. Crybwyllodd y gall materion ynghylch systemau chwistrellu a meysydd polisi tebyg eraill ymddangos yn rhai ymylol ond ei bod yn bwysig dangos arweinyddiaeth. Aeth yn ei flaen i ddweud bod angen i aelodau'r Cyngor wneud mwy nag esgus cefnogi partneriaethau a chroesawodd y bwriad i gynnal gweithdy ym mis Tachwedd.
- 4.18 Cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod yn bwysig mabwysiadu dull 'Tîm Cymru'. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd datblygu cyd-ddealltwriaeth a chroesawodd sylwadau'r CBI ar gydweithio wrth wneud penderfyniadau anodd.

- 4.19 Crybwyllodd Martin Mansfield fod angen pennu blaenoriaethau llywodraeth gyfan clir. Aeth yn ei flaen hefyd i ddweud bod gan bartneriaid cymdeithasol rwymedigaeth i sefyll o blaid Llywodraeth Cymru a'i chefnogi pan fydd yn penderfynu peidio â datblygu rhai pethau.
- 4.20 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod yr economi yn newid ond nad yw'n wynebu argyfwng, a'i bod yn bwysig defnyddio'r iaith gywir wrth ddisgrifio a deall yr hyn sydd angen ei wneud.
- 4.21 Cytunodd Iestyn Davies fod Cymru yn wynebu heriau wrth geisio gosod ei hun o fewn y cyd-destun economaidd ehangach a dyna pam mae terminoleg mor bwysig. O'r tair dogfen, bydd yn bwysig nodi'n glir pa flaenoriaethau a gaiff eu datblygu ac ystyried blaenoriaethu sectoraidd.
- 4.22 Nododd David Russ fod hyder busnesau wrth wraidd adnewyddu economaidd a bod y lefelau hyder hynny yn cynyddu.
- 4.23 Cytunodd David Leronn â hyn, gan nodi bod y monitor hyder busnes yn dangos, am y tro cyntaf mewn deng mlynedd fod hyder wedi cynyddu dros dri chwarter yn olynol a bod Cymru'n un o'r rhanbarthau mwy hyderus.
- 4.24 Ategododd Robert Lloyd-Griffiths y sylwadau hyn a chytunodd â phwynt cynharach a wnaed sef ei bod yn bwysig cefnogi polisïau os ydynt yn mynd i wneud gwahaniaeth.
- 4.25 Dywedodd y Prif Weinidog mai'r materion cyfredol yw: pwerau benthycu, a gallu buddsoddi ein cronfeydd ariannol ein hunain. Mae'r Llywodraeth yn ffactor ysgogi o bwys o ran buddsoddi, fodd bynnag heb bŵer benthycu byddwn dan anfantais sylweddol o gymharu â Lloegr. Mae angen pŵer benthycu er mwyn sicrhau cysylltedd ffisegol. Nododd hefyd nad yw'n argyhoeddedig eto bod busnes yn gallu benthycu fel y mae angen iddo wneud.
- 4.26 Cyfeiriodd Robert Lloyd-Griffiths at sylw cynharach ar yr M4, gan nodi bod hyn yn hollbwysig ac na ellir diystyru effaith yr ymyriad hwn.
- 4.27 Dywedodd y Prif Weinidog na fyddai toll ar yr M4 ond y byddem am gael rheolaeth lwyr ar dollau Croesfan Hafren. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn ansicr ynghylch pryd y daw'r trefniant presennol i ben a lefel y ddyled a fydd yn daladwy o hyd.
- 4.28 Nododd Martin Mansfield, er bod llawer o enghreifftiau da o gyflogwyr da a mwy o fuddsoddi, ei bod dal yn bosibl nodi gwendidau strwythurol yng Nghymru. Dywedodd y dylai fformat y Cyngor allu delio â'r blaenoriaethu sydd ei angen a sut y gall aelodau edrych ar y cyd ar fater blaenoriaethau y tu allan i gyfarfodydd y Cyngor. Gofynnodd beth y gallai'r aelodau ei wneud gyda'i gilydd i roi pwysau ar Lywodraeth y DU. Ychwanegodd fod angen i aelodau ystyried blaenoriaethu eu hagenda yn unol ag un Llywodraeth Cymru.

- 4.29 Dywedodd Richard Jenkins ei fod yn credu mai'r farn gyffredinol oedd y dylai treth stamp gael ei datganoli a holodd sut y gellid cyflwyno hyn.
- 4.30 Nododd y Prif Weinidog mai'r farn gyffredinol yn Whitehall oedd nad yw'r diwydiant adeiladu yng Nghymru am i'r dreth stamp gael ei datganoli ac mai'r hyn sydd ei angen yw i sefydliadau mawr wneud eu safbwynt yn glir.
- 4.31 Nododd Andy Richards fod cwmnïau angori, eu cadwyni cyflenwi a'r cwmnïau hynny sy'n tyfu mewn hyder wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru a bod hyder cynyddol yn y cymorth sydd ar gael. Dywedodd fod pob un ohonom ar yr un tîm a'n bod am weld busnesau yng Nghymru yn goroesi. Yn ei farn ef, mae'r pwyllgor hwn yn un cytbwys iawn a allai gyflawni hynny.
- 4.32 Dywedodd Emma Watkins ein bod bellach mewn cyfnod arferol newydd. Nid oes digon o arian ar gael i'w ailfuddsoddi mewn busnes. Mae angen i'r penderfyniad ar Silk gael ei wneud. Cynigiodd gysylltu â rhai cwmnïau mawr a gofyn iddynt holi am yr oedi parhaus. Aeth yn ei blaen i esbonio y dylai'r corff hwn ganolbwyntio ar ganlyniadau.
- 4.33 Atgoffodd y Prif Weinidog bawb y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ym mis Tachwedd ac y byddai canlyniadau'n cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw. Gwahoddodd aelodau i ystyried strwythur a fformat cyfarfodydd y Cyngor ac anfon sylwadau a safbwyntiau at Tracey Burke.

Cam Gweithredu: Aelodau i roi sylwadau ar fformat/strwythur y Cyngor i Tracey Burke

- 4.34 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw sylwadau eraill ar y papurau. Ni chodwyd materion pellach.

5. Trechu Tlodi

- 5.1 Croesawodd y Prif Weinidog Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y papur a ddosbarthwyd i'r Aelodau i'w drafod.
- 5.2 Cadarnhaodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi fod trechu tlodi'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb traws-adrannol a bod pob Gweinidog wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Nododd mai'r ffordd orau o drechu tlodi oedd drwy sicrhau cyflogaeth gynaliadwy i bobl a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi hyn. Dywedodd fod y Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu i gefnogi tair egwyddor arweiniol, sef atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith a lleddfu effaith tlodi.
- 5.3 Cyfeiriodd y Gweinidog at gam gweithredu penodol i fynd i'r afael ag aelwydydd heb waith, a nododd fod cyfraddau uwch o aelwydydd heb waith yng Nghymru na'r rhan fwyaf o'r rhannau eraill o'r DU, gyda thros 200,000 o aelwydydd heb waith ar hyn o bryd. Dywedodd fod y Cynllun Gweithredu yn cynnwys ymrwymiad i gynnig 5,000 o gyfleoedd i bobl sy'n byw mewn aelwydydd heb waith i ddod o hyd i hyfforddiant neu gyflogaeth gynaliadwy

erbyn diwedd blwyddyn galendr 2017. Byddant yn canolbwyntio ar wyth ardal glwstwr Cymunedau yn Gyntaf.

- 5.4 Nododd y Gweinidog mai nod y rhaglen hon fydd nodi cyfleoedd am waith, yn debyg i'r rhai sydd ar gael drwy raglen Twf Swyddi Cymru, i dorri'r cylch amddifadedd drwy gynnig cyfleoedd am gyflogaeth. Mae'r rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith (TWH) ar wahân i'r rhaglen Twf Swyddi Cymru, ond bydd Twf Swyddi Cymru yn cyfrannu at rai o'r 5,000 o gyfleoedd.
- 5.5 Soniodd y Gweinidog am waith y rhaglen Dechrau'n Deg, a chadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn dyblu nifer y lleoedd Dechrau'n Deg i 360,000 o blant a theuluoedd erbyn mis Mai 2016. Trafododd hefyd rôl Undebau Credyd mewn trechu tlodi fel darparwyr moesegol gwasanaethau ariannol a'r angen i gynyddu aelodaeth oedolion. Dywedodd y gellir gwneud mwy i gefnogi Undebau Credyd, er enghraifft drwy ystyried rôl gostyngiadau cyflogwyr.
- 5.6 Cyfeiriodd y Gweinidog at Fil Cenedlaethau'r Dyfodol a nododd nad rôl y Bil yw cynyddu biwrocratiaeth, ond edrych ar effaith ehangach y penderfyniadau a wneir a sut y gallant sicrhau manteision tymor hwy.
- 5.7 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi fod Bwrdd Gweithredu Trawslywodraethol wedi ei sefydlu i oruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu a'i bod yn bwysig cydnabod maint yr her a chanolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud.
- 5.8 Nododd y Dirprwy Weinidog fod y sector cyhoeddus ehangach hefyd yn rhan o'r broses gyflawni, a bod Hyrwyddwyr Trechu Tlodi wedi eu penodi mewn Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau y gwneir cysylltiadau o fewn Llywodraeth leol.
- 5.9 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a gwahoddodd Aelodau'r Cyngor i roi sylwadau.
- 5.10 Dywedodd Jon Phillips ei fod yn falch o weld bod trechu tlodi yn eitem ar wahân ar yr agenda a'i bod yn hanfodol ein bod yn symud tuag at economi fwy gwydn. Pwysleisiodd fod dadl economaidd dros leihau lefelau tlodi a chynyddu nifer y swyddi cynaliadwy â chyflog uwch. Cyfeiriodd at adroddiad diweddar gan SYG a dynnodd sylw at ddwy duedd; fod treuliant cynyddol yn cael ei hyrwyddo gan lefelau benthyca uwch a bod buddsoddiad fel cyfran o swyddi a gwariant ar ei lefel isaf ers y 1950au. Awgrymodd fod rôl Undebau Credyd yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn.
- 5.11 Cyfeiriodd at adroddiad diweddar Sefydliad Joseph Rowntree sy'n nodi tangyflogaeth fel problem benodol a chododd bryderon ynghylch twf contractau dim oriau. Croesawodd fentrau fel Twf Swyddi Cymru, gan nodi fod hwn yn arwydd o Lywodraeth sy'n deall ei rôl, a chroesawodd y targedau cadarnhaol a'r lleoliadau sydd ar gael i bobl ifanc. Cyfeiriodd hefyd at adroddiad diweddar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a nododd fod twf yn allweddol i drechu tlodi, ond pwysleisiodd na fyddai twf ar ei ben ei hun yn ddigon a bod angen iddo gael ei ategu gan strategaeth cyfoeth a dosbarthu.

- 5.12 Croesawodd Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru, y cyfeiriad at gwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol a chadarnhaodd y byddai'r ddau yn barod i roi cefnogaeth i'r rhaglen mynd i'r afael ag aelwydydd heb waith. Cytunodd â'r datganiadau ynghylch rôl Undebau Credyd ac y dylai Llywodraeth Cymru barhau i'w cefnogi fel ffordd o reoli arian a chael gafael ar gynhyrchion ariannol. Cyfeiriodd at yr agenda sgiliau digidol, a nododd fod sgiliau digidol yn sail i waith ar drechu tlodi, yn enwedig mewn perthynas â mynediad i swyddi a hyfforddiant.
- 5.13 Cyfeiriodd David Leron at weithgarwch llwyddiannus a oedd yn mynd rhagddo rhwng ysgolion yn Lloegr ac ICAEW mewn perthynas â chystadleuaeth gêm fusnes. Dywedodd fod ICAEW yn gweithio gyda Gyrfa Cymru ac yn ystyried lansio'r cynllun yng Nghaerdydd. Dywedodd ei fod wedi ei ddarbwylllo'n fawr gan waith Undebau Credyd a'i fod yn fodlon rhoi cymorth gyda niferoedd
- 5.14 Trafododd y Pitch, rhaglen arall a oedd yn cael ei dal yn Paintworks. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys y cyfle i gyfnewid tocynnau am £10 o bunnoedd Bryste. Enwodd y rhaglen hon fel ffordd ddiddorol o hyrwyddo gwariant mewn rhanbarth ac awgrymodd y gellid gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru, yn gysylltiedig ag Undebau Credyd.
- 5.15 Ategodd Emma Watkins bwysigrwydd mynd i'r afael â'r mater hwn. Nododd rôl hanfodol y sector preifat a'r angen i ymgysylltu â phartneriaid busnes hirdymor. Gofynnodd ar ba ffurf y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn fod, fel y gall partneriaid cymdeithasol fynd a siarad â chwmnïau angori. Nododd fod busnesau'n pryderu am ddiwygiadau lles.
- 5.16 Gofynnodd Iestyn Davies beth y gallai aelodau'r Cyngor ei wneud yn ymarferol i gefnogi'r agenda hon, a pha newidiadau gwirioneddol y gellir eu gwneud i sicrhau y dosberthir arian i'r manau lle y mae ei angen. Soniodd am y posibilrwydd o gael cyflogeion i dalu eu cyflogau i mewn i CFDIs. Gofynnodd hefyd sut y dylem sicrhau nad oes canlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â chymau gweithredu i drechu tlodi ac nad yw materion lleol, amserol yn tynnu adnoddau allan o gynlluniau trawsnewidiol.
- 5.17 Gofynnodd Paul Byard faint o ddylanwad a fydd gan Hyrwyddwyr Trechu Tlodi awdurdodau lleol. Cyfeiriodd at weithgarwch y Rhaglen Ewropeaidd, a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â swyddi sy'n berthynol i gadwyni cyflenwi, er enghraifft yn y sector gweithgynhyrchu, a gofynnodd sut y gallai'r gweithgarwch hwn ganolbwyntio ar drechu tlodi.
- 5.18 Croesawodd David Russ y cydweithio trawslywodraethol i drechu tlodi. Cyfeiriodd at Gynllun Cychwyn Busnes Gofal Plant a nododd sut mae hwn yn gweithio i ategu darpariaeth bresennol.
- 5.19 Diolchodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i'r Cyngor am ei sylwadau ac ymatebodd i'r pwyntiau a godwyd. Cadarnhaodd ei fod yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan Jon Phillips mewn perthynas ag adroddiad

JRF. Cadarnhaodd hefyd fod Llywodraeth Cymru'n edrych am gymorth ychwanegol gan y sector preifat ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru, lle bydd 750 o leoedd ychwanegol ar gael ar gyfer y Rhaglen Aelwydydd Heb Waith. Pwysleisiodd mai dim ond mewn partneriaeth â'r sector preifat y bydd y rhaglen hon yn gweithio.

- 5.20 Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn cytuno â sylwadau Derek Walker ar rôl mentrau cymdeithasol. Nododd y bydd rôl i gyflogwyr mawr ac angen i'r rhaglen ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i unigolion. Dywedodd fod cymorth rhagorol wedi bod ar gael gan y sector manwerthu, ond y bydd angen i sectorau eraill gyfrannu hefyd. Nododd fod rhai Undebau Credyd yn well nag eraill, ac mai'r nod yw iddynt dyfu a chael eu hystyried yn opsiwn hyfyw i bawb, ac nid i'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn unig. Cadarnhaodd ei fod yn aelod o ddau Undeb Credyd.
- 5.21 Cytunodd fod cynhwysiant digidol yn hollbwysig i drechu tlodi a nododd y cam tuag at hawlio ar-lein o dan Gredyd Cynhwysol. Cyfeiriodd at waith i greu cyfleusterau lle y gall unigolion ddysgu sut i ddefnyddio TG a chael cyngor a chymorth. Cydnabu rôl ysgolion o ran trechu tlodi a chadarnhaodd ei fod yn cynnal trafodaethau dwys â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y gorgyffwrdd ag addysg ffurfiol. Cyfeiriodd at y cymorth sydd ar gael drwy Grantiau Amddifadedd Disgyblion a chymorth ychwanegol gan Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol.
- 5.22 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ymchwilio i raglenni fel yr un sy'n cefnogi punt Bryste a hyrwyddo entrepreneuriaeth mewn ysgolion. Pwysleisiodd fod rôl y sector preifat yn hollbwysig wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a chadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gwmnïau angori ddarparu rhai o'r cyfleoedd ar gyfer y Rhaglen Aelwydydd Heb Waith.
- 5.23 Cydnabu'r Gweinidog y sylw ar ganlyniadau anfwriadol. Cytunodd fod gan y cylch nesaf o Raglenni Cronfeydd Strwythurol rôl. Nododd fod ugain y cant o gyllid ar gyfer y cylch nesaf o raglenni'r UE yn cael ei neilltuo i drechu tlodi a bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei ystyried yn gefnogaeth weladwy i hyn gan y Comisiwn.
- 5.24 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi fod Hyrwyddwyr Trechu Tlodi awdurdodau lleol yn gadarnhaol ynghylch natur ymgysylltu ar lefel leol. Cadarnhaodd fod Fframwaith wedi cael ei lansio ar hyn, sy'n tynnu sylw at feysydd o arfer gorau. Soniodd y Dirprwy Weinidog am ofal plant, a nododd fod amrywiaeth o heriau mewn perthynas â'r mater hwn, ac nad ydynt yn gysylltiedig â thlodi yn unig. Cyfeiriodd at Gynllun y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sef cynllun 10 mlynedd sy'n ymchwilio i wella ansawdd gofal plant. Cadarnhaodd fod Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael eu cynnal er mwyn nodi'r ddarpariaeth a'r bylchau presennol.
- 5.25 Mae'r Dirprwy Weinidog am weld gwelliannau yn nifer y lleoedd sy'n diwallu anghenion rhieni ac sy'n cyd-fynd â'u patrymau gwaith. Nododd fod

Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i ysgogi'r farchnad er mwyn creu busnesau gofal plant ychwanegol a hyrwyddo opsiynau gofal plant hyblyg.

- 5.26 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a gofynnodd i'r Cyngor godi unrhyw faterion manwl yn uniongyrchol â'r Dirprwy Weinidog.

6. Unrhyw fater arall

- 6.1 Awgrymodd Paul Byard y dylid cynnwys y farchnad ynni ddireolaeth fel eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nododd fod hwn bellach yn peri pryder i aelodau a phed ymdrinnid â'r mater hwn gallem weld mwy o fusnesau yn ceisio buddsoddi yng Nghymru.
- 6.2 Cadarnhaodd y Prif Weinidog ei gefnogaeth i'r sylwadau hyn, a nododd fod hwn yn fater sy'n peri pryder penodol i fusnesau ynni-ddwys oherwydd y diffyg disgowntiau sydd ar gael ar gyfer swmp-brynu ynni.
Cam Gweithredu: Bydd ynni yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.
- 6.3 Nododd Paul Byard fod amrywiaeth o fygythiadau i fusnesau, ond bod rhai cyfleoedd diwydiannol yn bodoli. Gofynnodd beth sy'n cael ei wneud i fanteisio arnynt.
- 6.4 Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod Dylan Jones Evans yn gweithio ar ail gam yr adroddiad cael gafael ar gyllid, a bod hyn yn cynnwys cyfarfod â'r uwch fanciau. Awgrymodd y byddai'n amserol efallai i'r eitem hon gael ei chynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y Cyngor er mwyn trafod y materion a godwyd a'r sylwadau sy'n cael eu gwneud ar yr agenda fenthyca.
- 6.5 Cytunodd Iestyn Davies fod ynni yn bwnc amserol ar hyn o bryd, a chroesawodd hefyd y cyfle i gael y newyddion diweddaraf am y gwaith cael gafael ar gyllid. Awgrymodd y dylai cynrychiolwyr o Gymdeithas Bancwyr Prydain ac OfGEM gael eu gwahodd efallai i'r Cyngor i ateb cwestiynau ar y materion hyn.
- 6.6 Holodd Richard Jenkins am y defnydd o gynllunio fel adnodd economaidd yng Nghymru a nododd fod rheoliadau cynllunio presennol yn ffafrio adeiladwyr sy'n adeiladu nifer fawr o dai. Gofynnodd beth y gellid ei wneud drwy gynllunio i gefnogi datblygwyr llai o faint a thrwy ddarparu cymorth busnes er mwyn eu cynnwys yn y farchnad dai. Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r cwmnïau adeiladu sy'n adeiladu nifer fawr o dai wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.
- 6.7 Nododd y Prif Weinidog y sylwadau hyn ac awgrymodd y dylid cynnwys cynllunio fel eitem ar yr agenda yn un o gyfarfodydd y Cyngor. Dylai hyn gynnwys trafodaeth ar y Bil Diwygio Cynllunio a chanllawiau cysylltiedig.
- 6.8 Dywedodd David Morgan ei fod yn gobeithio y bydd y Bil Cynllunio yn cefnogi datblygiad yn y sector manwerthu.

- 6.9 Cadarnhaodd David Russ ei gefnogaeth i gynnwys trafodaethau ar ynni a chael gafael ar gyllid mewn cyfarfod. Nododd fod dogfennau ar fin cael eu llofnodi ar gyfer y Cynllun Benthyciad i Gychwyn ac y bydd ar waith yn fuan yng Nghymru.
- 6.10 Awgrymodd Robert Lloyd Griffiths y dylai'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i unrhyw faterion allweddol y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt ar ôl cyfarfodydd. Nododd ei bod yn anodd i Aelodau holi barn aelodau eu grwpiau o randdeiliaid oherwydd pryd y derbynnir y papurau ar gyfer cyfarfodydd. Awgrymodd y gellid holi barn yr aelodau a chynnwys y safbwyntiau hynny yn nhrefodaethau'r Cyngor pe bai'r papurau yn cael eu derbyn yn gynt.
- 6.11 Cytunodd y Prif Weinidog y dylai papurau gael eu dosbarthu i Aelodau 28 diwrnod cyn cyfarfodydd, ar wahân i amgylchiadau eithriadol.
Cam Gweithredu: Dylai papurau gael eu dosbarthu 28 diwrnod cyn cyfarfodydd y Cyngor.
- 6.12 Nododd Iestyn Davies fod Grŵp Cynghori Busnes yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarfod yr wythnos nesaf a chadarnhaodd y byddai'n cyfleu neges glir fod consensws yng Nghymru ar ddatganoli.
- 6.13 Cadarnhaodd Martin Mansfield ei fod ef hefyd yn cwrdd â Llywodraeth y DU ac y byddai'n codi mater pwerau datganoledig. Nododd yr awgrym i roi cyhoeddusrwydd i bethau y cytunwyd arnynt yn dilyn cyfarfodydd y Cyngor, a chytunodd y byddai hyn yn bwysig ond dim ond os oes gan y Cyngor rywbeth pwysig i'w ddweud.
- 6.14 Soniodd Richard Jenkins am adroddiad diweddar ESTYN ar hyfforddiant yn y diwydiant adeiladu a'r nifer fach o fenywod a gyflogir yn y diwydiant adeiladu yn y rheng flaen (1%) ac mewn rhinwedd broffesiynol (9%). Nododd hefyd fod cyngor ar yrfaedd yn cyfeirio pobl 'llai abl' i'r sector adeiladu, ac y dylid adolygu'r cyngor hwn.
- 6.15 Awgrymodd y Prif Weinidog y dylid nodi'r pryderon hyn yn ysgrifenedig er mwyn i'r Cyngor eu hadolygu.
- 6.16 Awgrymodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y dylid ystyried y materion hyn a nododd y dylid gweithredu ar hyn gyda'r Adran Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau.
- 6.17 Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am ddod a daeth y cyfarfod i ben.